# Gwynedd

## Adroddiad Perfformiad 2014-15



www.gwynedd.gov.uk/perfformiad

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# MYNEGAI

**Cynnwys** **Tudalen**


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Nod y Cyngor | 03 |
| Rhagair Arweinydd y Cyngor | 04 |
| Digwyddiadau'r Flwyddyn | 05 |
| Ein Perfformiad | 06 |
| Barn Trigolion | 12 |
| Ein Gwariant | 13 |
| Meysydd: | |
| **Plant a Phobl Ifanc** | 14 |
| **Gofal, Iechyd a Lles** | 17 |
| **Yr Economi** | 21 |
| **Yr Amgylchedd** | 24 |
| **Cymunedau Cryf** | 27 |
| **Y Cyngor** | 30 |


**Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:**


Uned Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

E-bost: cynlluniostrategolapherfformiad@gwynedd.gov.uk

Ffôn: 01286 679 661


**I gael copi o'r ddogfen hon mewn print Bras, Braille, ar dâp neu mewn iaith arall, cysylltwch â Hawis Jones ar 01286 679661**

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

# NOD Y CYNGOR

Nod y Cyngor yw sicrhau

## 'Y GORAU AR GYFER POBL GWYNEDD HEDDIW AC YFORY'

Yn 2010, adolygwyd Gwerthoedd y Cyngor a chafwyd llu o awgrymiadau gan drigolion Gwynedd, staff y Cyngor ac aelodau. Wedi llawer o waith dadansoddi a thrafod, mabwysiadwyd 5 gwerth ar gyfer Cyngor Gwynedd wedi ei seilio ar yr egwyddor ganolog.

### Gwerthoedd y Cyngor

**PARCH**
Parchu ein pobl, ein hiaith a'n hamgylchedd

**POSITIF**
Llwyddwn trwy fod yn bositif

**GWERTH AM ARIAN**
Gwneud y gorau gydag adnoddau Gwynedd

**GWASANAETHU**
Gwasanaethau o'r ansawdd gorau i'n cwsmeriaid

**GWEITHIO FEL TÎM**
Cydweithio i gyflawni dros Wynedd

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano. Rydym yn gwneud hyn drwy'r Cynllun Strategol a thrwy ein hadroddiad blynyddol ar berfformiad a gyflwynir yma.

Mae'r broses o fod yn atebol dros berfformiad yn digwydd mewn dau gam:
**Cam 1**: Yr angen i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella, gan gynnwys cyfres o amcanion gwella (ein Cynllun Strategol).
**Cam 2**: Yr angen i awdurdodau gyhoeddi adroddiad perfformiad yng nghyswllt eu cynlluniau a'u hamcanion gwella (Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2014-15).

# RHAGAIR YR ARWEINYDD



Dyfed Edwards
**Arweinydd y Cyngor**

Bwriad yr Adroddiad Blynyddol hwn, fel yn y gorffennol, ydi ceisio crynhoi perfformiad Cyngor Gwynedd am y flwyddyn 2014-15 a hynny mewn ffordd wrthrychol a chytbwys. Ein nod yw sicrhau fod pobl Gwynedd yn cael darlun llawn o sut mae'r Cyngor yn perfformio yn y meysydd allweddol hynny sydd yn cyfrif ac yn gwneud gwahaniaeth, yn arbennig yr amryw feysydd sydd wedi eu hadnabod fel ein blaenoriaethau mewn cynlluniau fel Cynllun Strategol y Cyngor.

Rwyf yn falch iawn o adrodd unwaith eto eleni fod perfformiad y Cyngor yn gyson dda a'n bod yn cyflawni yn unol â'n bwriadau ar draws sbectrwm eang o wasanaethau. Ac mae diolch am hynny i'n staff a'n swyddogion yn ogystal ag Aelodau Cabinet a phob aelod arall o Gyngor Gwynedd. Serch hynny, mae angen i ni barhau i wella mewn rhai meysydd a chyflymu trawsnewid y ffordd y mae rhai gwasanaethau yn cael eu darparu e.e. yn y maes gofal. Ond beth bynnag y mae adroddiadau, tablau ac ystadegau yn ei ddangos, rhaid atgoffa ein hunain mai'r nod bob amser ydi darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf a fydd yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd heddiw ac yfory.

Fel sy'n hysbys i bawb, nid yw cynnal gwasanaethau cyhoeddus o safon yn hawdd o gwbl yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Ac mae angen i ni – y Cyngor a phobl Gwynedd – fod yn barod i adnabod beth rydym am ei flaenoriaethu go iawn yn ystod y cyfnod hwn o grebachu cyllidol. Golyga hynny gydweithio gydag eraill er mwyn ystyried ffyrdd newydd o gynnal gwasanaethau. Bydd llai o arian gan Lywodraeth Ganol yn anorfod yn arwain at lai o flaenoriaethau. Ond yr un yw'r her: gweithio gydag eraill er mwyn datblygu'r Wynedd newydd gyffrous ac unigryw. Mae'r siwrne yn parhau.

# DIGWYDDIADAU'R FLWYDDYN



Dilynwch ni ar Twitter @cyngorgwynedd

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Ebrill 3
Llwyddo i ddenu arian Ewropeaidd Cyfenter i adnewyddu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i allu allanoli'r gwasanaeth i'r Trydydd Sector.

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Ebrill 12
Arian Ewropeaidd i gefnogi pobl dros 25 oed economaidd anweithredol i fod yn barod i waith. Mae hyn yn targedu bobl hefo cyflwr iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Mehefin 19
'O Ble Daw ein Bwyd?' gan Bartneriaeth Amgylcheddol Gwynedd a'r garddwr Russell Jones wedi codi ymwybyddiaeth plant o gefndir y bwyd maent yn ei fwyta, a'r effaith amgylcheddol

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Medi 2
Lansiwyd yn swyddogol y Fforwm Mentrau Cymdeithasol er mwyn cryfhau'r perthynas rhwng mentrau a'r Cyngor

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Medi 24
GwyriAD yn derbyn cydnabyddiaeth am ansawdd uchel y gwrtaith a gynhyrchir wrth ailgylchu gwastraff bwyd yng Ngwyedd

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Hydref 15
Os ydych chi'n byw yn ardal Dwyfor o Wynedd, mae eich trefniadau casglu gwastraff dros ben yn newid ar 20 Hydref 2014!

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Hydref 23
Gwynedd wedi'i adnabod fel Sir Fentrau Cymdeithasol gan Social Enterprise Wales

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Tachwedd 10
Cyfle i ddysgu mwy am ymarfer corff ar gyfer pobl sy'n byw â dementia mewn sesiynau blas wythnos nesaf

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Rhagfyr 15
Ysgolion Gwynedd yn dathlu defnydd o'r Gymraeg gyda @Siarterlaith

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Chwefror 17
Gwobr Insport i Wasanaeth Cymunedau Iach Gwynedd. @BywIachGwynedd @dsw_news

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Chwefror 19
Dosbarthiadau rhad ac am ddim i gadw'n heini ym Mangor, Talysarn a Chaernarfon. @BywIachGwynedd

**Cyngor Gwynedd** @CyngorGwynedd · Mawrth 26
Bydd Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy yn ail-agor ei ddrysau am dymor gwyliau arall ddydd Llun, 30 Mawrth 2015.


# EIN PERFFORMIAD

**Cynllun Strategol 2013-17 yw prif gynllun Cyngor Gwynedd,** a'n nod yw sicrhau **Y Gorau i Bobl Gwynedd Heddiw ac Yfory** drwy ein gwasanaethau dydd i ddydd a thrwy flaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig ac yn cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl Gwynedd.

Mae'r galw am wasanaethau craidd fel Addysg a Gofal Cymdeithasol yn parhau i gynyddu, tra bod y gyllideb rydym yn ei derbyn gan y Llywodraeth wedi lleihau ymhellach yn 2014-15 o tua £7miliwn ac yn debygol o wneud hynny ymhellach. Felly, prif weledigaeth y Cyngor drwy ein Cynllun Strategol ydi **Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd.**

Dangosodd cyhoeddiad data cenedlaethol 2014-15 ein bod wedi cynnal neu wella ein perfformiad ers 2013-14 ar 25 o'r 42 (60%) mesur sy'n cael eu cymharu gyda gweddill Cymru, gyda dros hanner o'r mesurau hynny yn perfformio uwchlaw cyfartaledd Cymru. Rydym bob amser eisiau gwella ein perfformiad, neu ei gynnal lle nad yw hynny'n bosib, a hynny er gwaethaf yr her sydd o'n blaenau.

Er ein bod wedi bod yn gweithredu arbedion effeithlonrwydd ac yn rhesymoli ein strwythurau rheoli corfforaethol, yn ogystal â chychwyn newid ein diwylliant o fewn y Cyngor, mae perfformiad y flwyddyn wedi bod yn dda. Mae'n dangos hefyd ein bod wedi gwneud cynnydd ar ein prosiectau trawsnewidiol tra'n cynnal ansawdd uchel o wasanaeth dydd i ddydd.



Yn y maes **Plant a Phobl Ifanc**, rydym wedi bod yn gweithio tuag at **gefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau cyflawn.** Bu'r gwaith yn canolbwyntio ar drawsnewid y gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y dysgwr mwyaf bregus yn profi llwyddiant.

Gwelwyd cynnydd yn ein gwaith ataliol gyda sefydlu'r Tîm Trothwy Gofal i sicrhau ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd gydag anghenion dwys. Yn ogystal ag effeithio'n gadarnhaol ar fywydau plant a theuluoedd, mae'r gwaith wedi lleihau'r risg i blant ddod i ofal yr awdurdod. Derbyniodd **816 o deuluoedd wasanaeth ataliol drwy brosiect Gyda'n Gilydd, gydag 80% o'r rheini yn adrodd effaith bositif ar eu bywydau.**

Mae'r cyraeddiadau addysg yn gwella, gyda **chynnydd yn y ganran o ddisgyblion sy'n ennill pump TGAU gradd A*-C, yn cynnwys Mathemateg, Cymraeg a Saesneg o 58% yn 2013-14 i 61% eleni.**

Bu llawer o gynnydd yn y gwaith o ddatblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol, er bod amserlenni cenedlaethol a cheisiadau aflwyddiannus am gyllidebau wedi dylanwadu ar rai prosiectau o fewn y maes. Bydd y gwaith hwn yn ein cefnogi i leihau'r bwlch sydd rhwng yr ysgol orau a'r gwaethaf ar ganran y disgyblion 16 oed sy'n llwyddo i ennill pump TGAU gradd A*-C, gan fod y bwlch mwyaf rhwng ein hysgolion ar hyn o bryd yn 27.60%. Er bod perfformiad disgyblion yn parhau i wella, mae'r bwlch rhwng plant sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim a phlant eraill yn parhau.

Bu Estyn yn cynnal gwaith dilynol yn dilyn eu harolwg gwreiddiol ar ein gwasanaethau addysg ym Mawrth 2013, a derbyniwyd llythyr fis Rhagfyr 2014 yn cofnodi canlyniadau terfynol y monitro ar ôl yr arolygiad, gan ddweud fod cynnydd digonol wedi digwydd ar yr argymhellion, ac na fyddai unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

Er y newyddion da yma, rydym angen rhoi sylw pellach i wella ansawdd addysg i bob plentyn a person ifanc yng Ngwynedd a gwella arweinyddiaeth er mwyn codi safonau a chyrraedd sefyllfa lle y bydd ansawdd addysg yn fwy cyson ar draws y sir. Bydd hyn yn flaenllaw yng Nghynllun Strategol 2015-17.




Mae wedi bod yn gyfnod heriol i'r maes **Gofal Iechyd a Lles** i weithio tuag at **gefnogi plant a phobl fregus i fyw bywydau cyflawn ac i ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach.**

Mae'r gwaith trawsnewidiol sydd wedi bod yn digwydd wedi bod yn fodd i osod sylfeini inni ar gyfer y dyfodol. Bu gwaith arloesol yn digwydd rhyngom a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sefydlu Tîm Aml-Ddisgyblaethol cwbl integredig wedi'i seilio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog. Bydd Cynllun Strategol 2015-17 yn parhau gyda'r gwaith hwn.

Crewyd hefyd bedair uned tymor byr mewn cartrefi preswyl, a arweiniodd at leihau arosiadau yn yr ysbytai a chleifion yn gallu dychwelyd adref ynghynt. Mae hyn wedi **galluogi 27 o bobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac wedi atal 89 rhag cyrraedd yr ysbyty**.

Gwelwyd gwelliant hefyd yng nghyfradd yr oedi am resymau gofal cymdeithasol wrth drosglwyddo o'r ysbyty o 1.55 fesul mil o'r boblogaeth 75+ oed yn 2013-14 i 1.05 eleni.

Mae annibyniaeth a diogelwch defnyddwyr wedi ei hybu gyda **65% o ddefnyddwyr yn adrodd bod teleofal yn eu galluogi i fyw gartref yn annibynnol**. Darparwyd hefyd **453 o becynnau galluogi er mwyn cefnogi pobl fregus, gyda dros hanner ohonynt heb angen am wasanaethau gofal pellach.**

Rhoddwyd pwyslais ar wella a chryfhau trefniadau ac ymwybyddiaeth o ddiogelu, ac mae **100% o'r holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus â gwiriad troseddau cyfredol.** Bydd gwaith Diogelu yn cael sylw blaenllaw yng Nghynllun Strategol 2015-17.

Er y penderfynwyd dad-gomisiynu'r prosiect Chwaraeon a Gweithgaredd Egnïol, rhagwelir y bydd yn cael ei weithredu fel rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor yn dilyn eglurder ar ganfyddiadau'r Adolygiad Darpariaeth Hamdden.

Derbyniwyd Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar ein gwasanaethau cymdeithasol yn 2013-14. Dywed yr adroddiad: "Gwelwyd gwelliant fesul tipyn yn y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013-14, gyda gwasanaethau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth yn y gwasanaethau i oedolion, gwelliant parhaus ym mherfformiad y gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal." Mae'r gwasanaeth wedi datblygu cynllun gweithredu er mwyn gwella, ac fe fydd Cynllun Strategol 2015-17 yn adlewyrchu hynny.

Ym maes yr **Economi,** buom yn gweithio i **wella'r cyfleoedd i bobl Gwynedd fyw, gweithio a llwyddo'n lleol**, gyda llwyddiant prosiect Gwynedd Digidol wedi golygu bob pob cymuned busnes yn gallu cysylltu i seilwaith band eang cyflym, a **53% o Wynedd bellach â mynediad i fand eang cyflym.** Rydym yn parhau gyda'r gwaith ac yn annog i bobl a chymunedau Gwynedd gysylltu â ni er mwyn inni allu eu cefnogi i wella eu cysylltiad band eang.

Mae digwyddiadau cyhoeddus hefyd wedi'u cefnogi, a chynhaliwyd **12 digwyddiad cyhoeddus o fewn y sir, gyda 232 cwmni yn elwa a 1,303 o bobl ifanc wedi elwa o brofiadau newydd.** Cyfrannodd hyn at y **£6miliwn o fuddsoddiad yn economi Gwynedd dros y cyfnod.**

Crewyd nifer o swyddi yn y sir o ganlyniad i ymyrraeth uniongyrchol y prosiect Swyddi Gwerth Uchel, gyda **234.5 swydd wedi eu creu yn y sir,** a 62% o'r rhain yn ardal Meirionnydd lle mae'r angen fwyaf.

Yn anffodus ni lwyddwyd i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru eleni i sefydlu trefniadau caffael rhanbarthol fel rhan o brosiect Cadw'r Budd yn Lleol: Caffael y Cyngor, ond parhaodd chanran gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol i fod yn 40%. Byddwn yn sefydlu trefniadau caffael newydd er mwyn gallu prynu nwyddau a gwasanaethau yn fwy effeithlon yn ystod 2015-17.

**Mae cynnydd o 885 wedi bod yn nifer yr ymweliadau â chwaraeon a hamdden, sef cynnydd o 6%.**

Ym maes yr **Amgylchedd**, rydym wedi bod yn gweithio tuag at **hybu cyflenwad addas o gartrefi i bobl Gwynedd a hybu amgylchedd diogel a chynaliadwy gyda chysylltiadau hwylus.**

Rydym wedi cynyddu y nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael yng Ngwynedd, gan ddod â **69 o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd, sy'n golygu bod 140 o bobl wedi eu cartrefu.** Ymhellach, **mae 268 o bobl wedi eu cartrefu mewn 143 o unedau tai fforddiadwy.** Yn ychwanegol at hyn, **mae 188 (allan o 268) o bobl wedi eu cartrefu mewn unedau llai** yn unol â'u dymuniad.

**Mae'r cyfanswm o wastraff a gesglir wedi lleihau o 184 tunnell ers 2011-12, tra bod y gyfradd sy'n cael ei ailgylchu wedi cynyddu 9% i 55.14% yn yr un cyfnod.** Mae'r gwaith ailgylchu yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel inni, a byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn cwrdd â'r uchelgais hir dymor, sef 64% o wastraff yn cael ei ailgylchu/defnyddio/compostio erbyn 2020.

**Mae cyflwr 96.35% o'n prif ffyrdd (Ffyrdd Categori A a B) yn dda neu'n dderbyniol, gyda 3.65% yn unig mewn cyflwr gwael.**

Er ein bod wedi llwyddo i wneud yn well na'r disgwyl ac wedi **codi ymwybyddiaeth 1,871 o aelwydydd arfordirol am y perygl o lifogydd**, mae angen parhau i weithio yn y maes hwn er mwyn gwneud yn siŵr fod y trigolion sy'n byw mewn dros fil o aelwydydd eraill sydd mewn perygl yn ymwybodol o'r hyn y maent yn ei wynebu, ac yn medru ymateb yn addas i'r sefyllfa.

Ym maes **Cymunedau Cryf**, rydym wedi bod yn **cydweithio i greu dyfodol hyderus a Chymraeg a lleihau effaith amddifadedd ar bobl Gwynedd.**

Rydym wedi gallu **defnyddio arian Cronfa Galedi y Llywodraeth i gefnogi 1,658 o bobl**. Rydym hefyd wedi gallu **cefnogi 140 o deuluoedd gyda blaendal rhent** ac felly osgoi iddynt fod yn ddigartref. Gwelwyd gwelliant yn **nifer y dyddiau a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor o 21 diwrnod i 19 diwrnod eleni.**

Rydym wedi wynebu her i arbed pobl rhag dod yn ddigartref oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl sy'n cyflwyno eu hunain gyda phroblemau mwy cymhleth, e.e. problemau iechyd meddwl. Mae wedi bod yn her i adnabod lleoliadau sefydlog i rai unigolion, yn enwedig rhai sydd â hanes o dramgwyddo mewn llety blaenorol (e.e. mynd i ddyled, ymddygiad gwrth-gymdeithasol). Mae'r gwaith i gynyddu nifer unedau llai a chynyddu unedau tai fforddiadwy yn cyfrannu at welliant yn y maes yma.

Ni lwyddwyd i gyflawni amcanion penodol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, oherwydd nad oedd gwaith yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg wedi gorffen, ac felly nid oedd cynllun gweithredu wedi ei gytuno yn ei sgil. Hefyd, nid oedd canran y disgyblion blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) wedi cynyddu. Fodd bynnag,

**llwyddodd 97% (94 allan o 97) ysgol gynradd i gyrraedd gwobr Arian neu Efydd y Siarter Iaith**, a chychwynnwyd cydweithio gyda sefydliadau'r sir i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn gymdeithasol. Mae mesur effaith yr iaith Gymraeg yn gymdeithasol gyda disgyblion yn dangos bod 318 (12.5%) o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd yn nefnydd y Gymraeg ar iard yr ysgol. Bydd y gwaith yma yn parhau yng Nghynllun Strategol 2015-17.

Mae wedi bod yn gyfnod anodd inni dros y flwyddyn er mwyn gweithredu arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd â chynnal safon gwasanaethau. Ym maes **Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor**, buom yn parhau â'r weledigaeth o **roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud** a llwyddwyd i wireddu £3.3miliwn o arbedion ac adnabod cynlluniau effeithlonrwydd pellach cyfwerth â dros £13miliwn ar gyfer eu gwireddu yn 2015-18. Effaith hyn yw lleihau'r bwlch ariannol ac osgoi toriadau. Wrth gwrs, mae newid diwylliant mewn sefydliad mor fawr yn cymryd amser ac yn gynllun hir dymor, ac oherwydd hynny mae hi rywfaint yn gynamserol i adrodd ar effaith y gwaith yma.

Rydym hefyd wedi llwyddo i ennill £1.3miliwn gan y Llywodraeth drwy ddod i gytundeb â nhw, 'Cytundeb Canlyniadau', ar ein perfformiad ar brosiectau a mesuryddion cysylltiedig. Mae hyn wedi cyfrannu at leihau'r bwlch ariannol.

Fodd bynnag, mae'r gyfradd o bobl Gwynedd sy'n dweud eu bod yn fodlon gyda'n gwasanaethau wedi gostwng, o 63% yn 2013-14 i 52% yn 2014-15. Dim ond 28% o drigolion Gwynedd (o'i gymharu â 32% y llynedd) sy'n teimlo ei fod yn bosib iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardaloedd lleol. Felly mae angen gwella ymgysylltu gyda phobl Gwynedd ar benderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywydau a'u hardal, a byddwn yn rhoi sylw i hyn wrth weithredu ein Strategaeth Ymgysylltu yn 2015-16.

## Trosolwg o waith Craffu

Swyddogaeth craffu yw craffu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (y Cabinet) a'u dwyn i gyfrif. Mae aelodau'r pwyllgorau craffu yn dod o blith aelodau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifol am y penderfyniadau hynny.

Yn ystod 2014-15, mae'r craffwyr wedi cadw llygad ar berfformiad gwasanaethau'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ac wedi gweithio ar bedwar ymchwiliad craffu. Mae rhai enghreifftiau o'u gwaith yma:

Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

- Craffu a herio barn yr archwilwyr allanol, Estyn a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ar drefniadau'r Cyngor yn y meysydd Addysg a Gofal
- Herio cynnydd ar rai prosiectau strategol pwysig fel y prosiect Galluogi a'r prosiect Gwella Ansawdd Addysg
- Craffu a herio Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar gynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Ngwynedd
- Cwblhau rhan gyntaf ymchwiliad craffu ar y trefniadau gofal pan y mae claf yn gadael yr ysbyty i fynd i'w cartref a chychwyn gwaith pellach ar hynny
- Parhau i edrych hefyd ar weithrediad Polisi Iaith Addysg Gymraeg y sir

Pwyllgor Craffu Corfforaethol

- Craffu cynigion gwasanaethau'r Cyngor am arbedion effeithlonrwydd o £14.9m; cafodd rhai elfennau eu craffu ymhellach cyn eu gweithredu; cyfeiriwyd rhai i gael sylw fel "toriadau" yn hytrach nag "arbedion effeithlonrwydd"
- Craffu cynigion y Cyngor ar gyfer manteisio ar ei "faint prynu"; arweiniodd hyn at gynnig ffordd i drigolion brynu ynni yn rhatach
- Craffu'r gwaith mwyaf diweddar ar weithredu argymhellion yr ymchwiliad craffu i drefniadau caffael y Cyngor sydd bellach wedi arwain at gyflwyno trefniadau "rheolaeth categori"
- Craffu bwriadau'r Cyngor o ran gwella ei drefniadau ymgysylltu gyda thrigolion y sir

Pwyllgor Craffu Cymunedau

- Craffu cynnydd ar brosiect y Cyngor i newid ei drefniadau ailgylchu a chasglu gwastraff gweddilliol
- Craffu a herio cynnydd ymateb y Cyngor i adroddiad beirniadol ar rai agweddau o waith hylendid bwyd y Cyngor
- Craffu'r problemau a gododd yn ystod y flwyddyn yn sgil y gwaith ar Bont Briwet, Penrhyndeudraeth
- Cwblhau ymchwiliad craffu i drefniadau cludiant ar gyfer disgyblion sydd dros 16 oed a chyflwyno argymhellion i'r Aelod Cabinet
- Cychwynnwyd ar ymchwiliad i sut y mae'r Cyngor yn ymateb i broblem digartrefedd yn y sir

Yn olaf, daeth Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2014-15 i'r casgliad fod: "ymrwymiad y Cyngor i ddod yn sefydliad sy'n canolbwyntio'n well ar ddinasyddion, a'i record o ran cyflawni ei amcanion gwasanaeth ac ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16."

Ein gweledigaeth ar gyfer y Cyngor yn 2015-17 yw sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaetha'r ffaith bod adnoddau yn prinhau. Bydd pwyslais ein Cynllun Strategol 2015-17 ar wella gallu'r Cyngor i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd, ac fe fyddwn yn gwneud hynny drwy drawsffurfio gwasanaethau i fod yn wasanaethau y byddwn yn gallu eu cynnal i'r dyfodol.

# BARN TRIGOLION



## Gofynnwyd i bobl Gwynedd am eu barn gan ganolbwyntio ar y tri chwestiwn yma:

**Ydych chi'n teimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eich ardal leol?**

- Bodlon/Bodlon Iawn: 28%
- Ddim yn Fodlon nac Anfodlon: 36%
- Anfodlon/Anfodlon Iawn: 36%

**Yn gyffredinol sut ydych yn teimlo am y ffordd mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau?**

- Bodlon/Bodlon Iawn: 52%
- Ddim yn Fodlon nac Anfodlon: 34%
- Anfodlon/Anfodlon Iawn: 14%

**Ydych chi'n teimlo fod Cyngor Gwynedd yn cynnig gwerth am arian?**

- Bodlon/Bodlon Iawn: 45%
- Ddim yn Fodlon nac Anfodlon: 37%
- Anfodlon/Anfodlon Iawn: 17%

Bodlon/ Bodlon Iawn — Ddim yn Fodlon nac Anfodlon — Anfodlon/ Anfodlon Iawn

Daeth yr ymateb yma gan ein Panel Trigolion sy'n cyfrannu tuag at nifer o arolygon ar wasanaethau Cyngor Gwynedd. Os hoffech chi ymuno â'r Panel Trigolion, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Cydlynydd Panel Trigolion drwy fynd i gwynedd.gov.uk, ebostio paneltrigolion@gwynedd.gov.uk neu ffonio 01766 771000.

# EIN GWARIANT

## Dyma faint a wariwyd gan wasanaethau'r Cyngor ar bobl Gwynedd

Addysg
£92,758,000

Gwasanaethau Canolog
£2,122,000

Rheolaeth a Gwasanaethau Corfforaethol a Democratiaeth
£5,906,000

Oedolion, Iechyd a Llesiant
£50,956,000

Ymgynghoriaeth Gwynedd
£1,236,000

Priffyrdd a Bwrdeistrefol*
£26,816,000

Plant a Theuluoedd
£14,353,000

Cymorth i Dalu Treth Cyngor
£9,258,000

Economi a Chymuned
£14,118,000

Rheoleiddio
£11,760,000

*heb gynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Chanolbarth Cymru (£16,000)

I ganfod mwy am ein gwariant ewch i gwynedd.gov.uk

# Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau cyflawn


Rydym angen sicrhau fod holl blant a phobl ifanc yn derbyn yr un safon dda o addysg o fewn ysgolion y sir, a'n bod yn gallu cynnig yr amgylchedd ddysgu orau iddynt. Golyga hyn ein bod wedi canolbwyntio ar sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysg rydym yn ei gynnig i blant a phobl ifanc, gan roi pwyslais ar sicrhau bod y dysgwr mwyaf bregus yn profi llwyddiant. Rydym hefyd wedi adolygu a buddsoddi yn ein gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd er mwyn darparu'r math cywir o wasanaeth sy'n galluogi plant a phobl ifanc y sir i fyw yn fwy annibynnol.

Rydym wedi buddsoddi yn y maes ataliol yn ystod y flwyddyn mewn ymgais i wneud gwahaniaeth i grwpiau bregus o bobl ifanc. Cychwynnwyd ar gynlluniau trawsnewid Gwasanaethau Gofal Plant gan sefydlu Tîm Trothwy Gofal i sicrhau ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd gydag anghenion dwys sydd â risg o ddod i ofal yr awdurdod. Mae'r galw arnom am wasanaethau ataliol wedi bod yn uwch na'r disgwyl ac rydym wedi llwyddo i gefnogi'r rhan fwyaf o'r teuluoedd o fewn y flwyddyn. **Derbyniodd 816 o deuluoedd wasanaeth ataliol drwy brosiect Gyda'n Gilydd, gyda 80% yn adrodd effaith bositif ar eu bywydau.**

Mae pump allan o chwe phrosiect ym maes Plant a Phobl Ifanc wedi eu cyflawni'n llwyddiannus. Bu cynnydd derbyniol hefyd gyda'r prosiect Trefniadaeth Ysgolion, sydd wedi cael ei effeithio gan waith ymgynghori a gwaith adolygu ceisiadau busnes sydd yn gysylltiedig â denu arian cyfalaf gan y Llywodraeth.

Un o brif lwyddiannau 2014-15 yw'r gwelliant sydd wedi bod ym mhresenoldeb a safonau addysg plant a phobl ifanc ar draws y sir. **Mae presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd wedi cynyddu ymhellach yn 2014-15 i 94.2%**, sy'n gynnydd o 0.8%. Mae'r ffigyrau hyn yn uwch na'r ffigyrau cenedlaethol cyfatebol (93.6%).


Ar ben hyn, mae ffigyrau gwaharddiadau parhaol uwchradd wedi gostwng, sydd yn ei dro wedi arwain at welliant mewn presenoldeb. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, **cynyddodd cyraeddiadau disgyblion ysgolion sy'n llwyddo i ennill pump TGAU gradd A*-C o 58% i 61%**, a oedd yn rhannol oherwydd y **cynnydd mewn cyrhaeddiad ym Mathemateg i 65%.**




Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol, ac mae llawer iawn o waith wedi'i wneud yn y maes yma yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae model penodol i Ysgol Newydd Hafod Lon wedi ei ddatblygu ac wedi derbyn ymgynghoriad statudol. Mae'r gwaith ymgynghori hefyd wedi'i gynnal yn nalgylchoedd y Gader a'r Berwyn, sef trafodaethau ar gynlluniau sydd yn ymwneud ag ad-drefnu 16 ysgol, gan gynnwys dwy ysgol uwchradd. Bydd gwaith yn y maes yn parhau yng Nghynllun Strategol 2015-17.

Fodd bynnag rydym yn disgwyl penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru ar achosion busnes ysgolion uwchradd dalgylch y Gader (buddsoddiad cyfalaf o £4.34miliwn), dalgylch y Berwyn (buddsoddiad cyfalaf o £9.27miliwn) ac adeilad newydd i Ysgol Glancegin, Maesgeirchen (buddsoddiad cyfalaf o £5.11miliwn). Mae'n holl bwysig inni sicrhau fod gwaith adeiladu Ysgol Bro Llifon, buddsoddiad cyfalaf o £4.84miliwn, yn mynd yn ei flaen ar amser yn ystod y flwyddyn yma fel ei fod yn agor i dderbyn disgyblion ym Medi 2015. Bydd ad-drefnu ysgolion yn ein cefnogi i leihau'r bwlch sydd rhwng yr ysgol orau a'r gwaethaf ar ganran disgyblion 16 oed sy'n llwyddo i ennill pump TGAU gradd A*-C, gan fod **y bwlch mwyaf rhwng ein hysgolion ar hyn o bryd yn 27.60%.**

GY25 Canran bwlch y gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion Trothwy L2+ (5 TGAU A* - C yn cynnwys Iaith a Maths)




Er bod perfformiad disgyblion yn parhau i wella, mae'r bwlch rhwng plant sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim a phlant eraill yn parhau.

O ran yr agenda ôl-16, llwyddom i hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion uwchradd ac addysg bellach yn ardal Meirionnydd ym maes addysg a hyfforddiant 16-19 oed, gyda chwe chwrs wedi eu hadnabod a chwricwlwm wedi ei baratoi ar gyfer Medi 2015. Yn ogystal, rydym wedi llwyddo i ddatblygu 110 o gyrsiau ar y cyd yng Ngwynedd a Môn.

Mae angen rhoi sylw pellach i wella ansawdd addysg ac arweinyddiaeth yng Ngwynedd. Rydym angen gweld sefyllfa lle bydd ansawdd addysg yn fwy cyson yn y sir, ac y bydd trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni'u potensial. Mae angen inni wella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau, a bydd Cynllun Strategol 2015-17 yn canolbwyntio ar hyn.

Rydym hefyd angen gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau ataliol yn fwy cynaliadwy a'n bod yn canolbwyntio ymdrechion yn y llefydd iawn. Yn ychwanegol, rydym yn paratoi at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n rhoi ffocws ar yr unigolyn ac a fydd yn golygu newid i weithdrefnau ar draws gwasanaethau gofal plant a phobl ifanc yn ogystal â gwasanaethau oedolion.

# GOFAL, IECHYD A LLES





## Ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach


## Cefnogi pobl fregus i fyw bywydau cyflawn

Mae cefnogi y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ac er ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol, mae perfformiad ar y cyfan wedi bod yn gadarnhaol, gyda thri allan o bum prosiect yn y maes wedi eu cyflawni'n llwyddiannus a'r prosiect Lletya wedi ei gyflawni'n rhannol.

Rydym mewn cyfnod pwysig iawn o ran newidiadau yn y maes gofal, gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 ar fin dod yn weithredol, a nifer o newidiadau ar waith neu yn cael eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Fel y gwyddom, mae cynnydd ym mhoblogaeth pobl hŷn Gwynedd ac mae'r sir bellach yn gartref i dros 26,000 o bobl dros 65 (22% o'r boblogaeth). Dymuniad y rhan fwyaf ohonom wrth fynd yn hŷn yw ein bod yn gallu aros gartref yn ein cymunedau gyhyd ag sy'n bosibl. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun Strategol i gyflwyno rhaglenni a fyddai'n sicrhau fod pobl yn cael opsiynau o ran dewis llety addas, fod ganddynt ddewis eang o wasanaethau ataliol a'u bod felly yn derbyn cefnogaeth gymunedol sy'n cwrdd â'u hanghenion. Cafodd hyn ei wneud yn amlwg gyda'r bwriad ein bod yn cwrdd â dymuniad unigolion a hefyd yn osgoi rhoi gwasanaethau statudol i unigolion sydd ddim eto eu hangen. Ar yr un pryd rydym yn parhau i amddiffyn, gwarchod a chefnogi'r bobl fwyaf bregus ac sydd â'r anghenion dwysaf o fewn ein cymdeithas.

Yn plethu i hyn, roedd angen inni weithio tuag at wella llesiant y bobl hynny ac wrth gwrs eu gofalwyr sydd weithiau angen cymorth. Yn 2014, daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfraith. Ynghyd â chefnogi'r elfen llesiant, mae'r ddeddf yn rhoi pwyslais ar ddewisiadau'r unigolyn a chyfleon gweithio'n integredig ar draws sectorau er mwyn gwella gwasanaethau i bobl fregus. Rydym yn croesawu'r cyfle yma, ac mewn ymateb i rai o'r agweddau hyn, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn treialu ffordd gwbl newydd o weithio ers mis Ionawr 2015, sydd wedi golygu sefydlu Tîm Aml Disgyblaethol cwbl integredig wedi'i seilio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae hi'n ddyddiau cynnar o ran mesur llwyddiant y tîm, ond ymddengys o'r achosion cynnar bod y ffordd hon o weithio yn profi'n well i bobl a hefyd yn fwy effeithiol.




Defnyddiwyd arian grant o Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru i ariannu nifer o gynlluniau ar y cyd rhwng y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r trydydd sector, gan gynnwys y cynllun uchod. Cynyddwyd gwelyâu ysbaid a chryfhawyd y ddarpariaeth galluogi a chanolraddol, gan greu pedair uned tymor byr mewn cartrefi

preswyl. Bu i hyn arwain at allu lleihau arosiadau yn yr ysbytai a chleifion yn gallu dychwelyd adref ynghynt, a hynny hefyd yn ystod y penwythnosau. Felly, mae gweithio'n integredig a darparu gwasanaethau ar y cyd wedi helpu nifer o bobl i osgoi mynd i'r ysbyty heb fod angen ac wedi galluogi rhai cleifion i ddod adref ynghynt. **Mae'r pedair uned tymor byr a grëwyd wedi galluogi 27 o bobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac wedi atal 89 rhag cyrraedd yr ysbyty.** Mae hyn wedi arbed 1,998 o ddyddiau yn yr ysbyty, sydd yn arbediad o tua £685,000 i'r Bwrdd Iechyd.

Gyda mwy fyth o ddatblygiadau lletya eleni mae gan bobl fregus mewn gwahanol rannau o Wynedd opsiynau gwirioneddol o ran y math o lety maent yn ei ddymuno, sydd hefyd yn addas i gyfarch eu hanghenion. Yn benodol o ran y ddarpariaeth lletya, **mae 42 uned Tai Gofal Ychwanegol bellach wedi eu datblygu ar gyfer pobl hŷn ym Mangor**. Yn anffodus ni lwyddwyd i gytuno ar Strategaeth Letya Pobl Hŷn erbyn diwedd y flwyddyn ac felly rydym yn gwneud hynny yn ystod 2015–16.

Wrth gydweithio gydag Age Cymru Gwynedd a Môn, llwyddom i sefydlu mwy o Ganolfannau Heneiddio'n Dda sy'n gweithio i hyrwyddo lles pobl hŷn. Trwy'r canolfannau mae posib darparu gweithgareddau i gadw pobl hŷn yn iach a chreu cyfleoedd i gymdeithasu. Lansiwyd dosbarthiadau DementiaGo ym mis Tachwedd gyda'r nod o helpu pobl sydd yn byw gyda dementia a'r rhai sydd yn gofalu amdanynt. Mae'r dosbarthiadau yma yn canolbwyntio ar ymarferion ar gyfer gwella cydbwysedd, cryfder, cyd-symudiad a hybu cymdeithasu. Ers lansio'r dosbarthiadau, mae'r holl **ddefnyddwyr wedi dangos gwelliant mewn ansawdd bywyd, gyda 90% yn dangos gwelliant mewn symudiad corfforol a chryfder gafael.**

Mae datblygiadau yn y gefnogaeth gymunedol wedi golygu fod gan bobl fregus Gwynedd fwy o gyfleoedd i fyw eu bywydau yn gyflawn ac yn ôl eu dewis. Mae'r cydweithio cynyddol ar draws sefydliadau a sectorau yn golygu fod cyfleoedd gwirioneddol i roi budd y cwsmer yn ganolog, gwella'r gwasanaeth a roddir, a hefyd eu profiad yn gyffredinol. Mae annibyniaeth a diogelwch defnyddwyr wedi ei hybu gyda **65% o ddefnyddwyr yn adrodd bod teleofal yn eu galluogi i fyw gartref yn annibynnol**. Darparwyd hefyd 453 o becynnau galluogi er mwyn cefnogi pobl fregus, gyda dros hanner ohonynt heb angen am wasanaethau gofal pellach.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd blaenoriaeth hefyd i faes 'Diogelu Plant ac Oedolion' a'r angen i sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau diogelu yn cael eu deall yn glir gan holl staff ac aelodau'r Cyngor. Parhawyd gyda'r rhaglen hyfforddiant ar ddiogelu, gan dargedu staff a darparwyr gwasanaethau allanol perthnasol, a hynny er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o'r materion pwysig dan sylw, gan gynnwys yr angen i sicrhau gwiriad cofnod troseddol cyfredol. **Mae 100% o'r staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda plant, phobl ifanc ac oedolion bregus wedi cael gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyfredol.**




Mae'r maes Gofal, Iechyd a Lles yn cynnwys yr elfen o hyrwyddo cyfleoedd i drigolion Gwynedd allu byw'n iach drwy gydol eu hoes. Er y penderfynwyd dad-gomisiynu'r prosiect Chwaraeon a Gweithgaredd Egnïol, rhagwelir y bydd yn cael ei weithredu fel rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor yn dilyn eglurder ar ganfyddiadau'r Adolygiad Darpariaeth Hamdden.

Mae 2014-15 wedi bod yn gyfnod o osod sylfeini cadarn o fewn y maes Gofal Oedolion, Iechyd a Lles yng Ngwynedd. Gan mai un o brif ddyletswyddau'r Cyngor yw diogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau, byddwn yn cryfhau ymhellach ein trefniadau corfforaethol o fewn y maes diogelu.  Byddwn yn parhau i gydweithio ar draws sefydliadau a sectorau er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r gwasanaeth gorau posib i bobl Gwynedd, ac yn sicr bydd rhaid i ni ymrwymo i newidiadau fydd yn cyfarch gofynion y Ddeddf.

**Mae angen rhoi sylw pellach**, lle yn berthnasol, i ddatblygu timau a strwythurau integredig, os gwelir bod gwneud hyn yn rhoi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd. Tra'n parhau i ddatblygu opsiynau lletya, byddwn yn gweithio gyda chymunedau gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r her sydd yn wynebu'r maes gofal oedolion i'r dyfodol. Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod Gwynedd yn sir â chanddi gymunedau gwydn sydd yn naturiol gefnogi unigolion bregus i fyw bywydau llawn.


# YR ECONOMI



## Gwella'r cyfleoedd i bobl Gwynedd fyw, gweithio a llwyddo'n lleol

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ym maes yr economi yw cryfhau gwytnwch busnesau'r sir er mwyn helpu busnesau i oroesi a chanfod marchnadoedd eraill i ddatblygu. Mae'r Cyngor wedi adnabod ers cyfnod fod angen cadw'r budd yn lleol o ran cyflogaeth, a bod angen gwella lefelau cyflogau'r sir a denu mwy o swyddi gwerth uchel.

Mae dau allan o bedwar prosiect y maes wedi eu cyflawni'n llwyddiannus, gyda phrosiect Swyddi Gwerth Uchel hefyd wedi ei gyflawni'n rhannol. **Crewyd nifer o swyddi yn y sir o ganlyniad i ymyrraeth uniongyrchol y prosiect, gyda 234.5 swydd wedi eu creu** a 62% o'r rhain yn ardal Meirionnydd, lle mae'r angen fwyaf. **Mae 34 o'r swyddi yn rhai "gwerth uchel"**, sef swyddi gyda chyflog o dros draean yn fwy na chyfartaledd y sir.




Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o fewn y maes trwy ddatblygu seilwaith a chlystyrau busnes arbenigol megis sefydliad Parth Menter Eryri ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru. O fewn Parth Menter Eryri mae'r sectorau ynni carbon isel a digidol yn cael eu targedu ar gyfer safle Trawsfynydd a'r sector Awyr ac Uwch Weithgynhyrchu ar gyfer safle Llanbedr. Mae Adroddiad Cynllunio Cludiant Cymru wedi mabwysiadu gwelliannau i'r lôn yn Llanbedr mewn paratoad i waith datblygu Parth Menter Eryri eleni.

Rhoddwyd cryn sylw yn ystod y flwyddyn i ddatblygu'r sector diwydiannau creadigol. Mae digwyddiadau rhwydweithio a chynadleddau wedi eu cynnal o fewn y sector yma i ddatblygu busnesau lleol a rhanbarthol i'r dyfodol. Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda 30 o fusnesau newydd sydd â diddordeb mewn lleoli yn y sir. Bydd gweithredu pellach yn ystod 2015 a byddwn yn cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ar gyfer dynodiad sector blaenoriaeth ranbarthol i'r diwydiannau creadigol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag Xpo North i drafod datblygiad rhwydwaith Gogledd yr Alban a chyfleoedd diwydiannau creadigol yng Ngogledd Cymru.

Mae digwyddiadau cyhoeddus wedi'u cefnogi, a **chynhaliwyd 12 digwyddiad cyhoeddus o fewn y sir, gyda 232 cwmni yn elwa a 1,303 o bobl ifanc wedi elwa o brofiadau newydd.** Cyfrannodd hyn at y **£6miliwn o fuddsoddiad yn economi Gwynedd dros y cyfnod**. Drwy gydweithio efo Grŵp Llandrillo-Menai mae pobl ifanc lleol wedi derbyn cyfleoedd i ymddangos fel artistiaid mewn digwyddiadau, megis Gŵyl Rhif 6 a Wakestock. Rydym eisoes yn paratoi cwmnïau lleol at ddigwyddiadau cyhoeddus yn 2015.

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn ystod y flwyddyn wrth ddatblygu cynllun Gwynedd Digidol. Mae'r cynllun yma wedi sicrhau fod pob cymuned fusnes yn y sir yn gallu manteisio ar gysylltu â seilwaith band eang cyflym, gyda **53% o Wynedd bellach â mynediad i fand eang cyflym.** Rydym yn parhau i gefnogi rhaglen argaeledd band eang cyflym er mwyn wireddu rhaglen Cyflymu Cymru i wella isadeiledd band eang y sir, ac felly creu'r amodau i wneud busnesau'r sir yn fwy cystadleuol.

Yn anffodus ni lwyddwyd i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru eleni i sefydlu trefniadau caffael rhanbarthol fel rhan o brosiect Cadw'r Budd yn Lleol: Caffael y Cyngor, ond parhaodd canran gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol i fod yn 40%. Mae cyfeiriad newydd bellach wedi ei gytuno gan y Cabinet i fewnosod trefniadaeth caffael rheolaeth categori. Golyga hyn drefnu adnoddau i gaffael o fewn meysydd penodol er mwyn prynu'n fwy arloesol ac effeithlon gan gryfhau ein dealltwriaeth o'r farchnad. Mae'r gwaith o sefydlu'r drefn newydd yn parhau yn 2015-16 gan gychwyn gyda'r categori Pobl, a bydd y categorïau Amgylchedd a Chorfforaethol yn dilyn. Y nod yma yw creu gwell amodau i gefnogi'r sector fusnes i gael mynediad i gytundebau a osodir gan y Cyngor.




## Hybu cyflenwad addas o gartrefi i bobl Gwynedd

## Hybu amgylchedd diogel a chynaliadwy, gyda chysylltiadau hwylus

Mae Gwynedd yn sir ddaearyddol fawr, ac yn cyflwyno nifer o heriau amgylcheddol. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein trigolion yn medru byw bywydau cyflawn oddi fewn eu hardaloedd gan geisio gwarchod yr amgylchedd hwnnw hefyd. Rydym yn gallu adrodd bod holl brosiectau maes yr Amgylchedd wedi cyflawni'n llwyddiannus, sef pump prosiect.

Roeddem wedi adnabod nad oedd digon o dai addas ar gael i drigolion lleol yn y sir ac yn y llefydd cywir. Rhoddwyd blaenoriaeth i gartrefu pobl ddigartref ac ymgeiswyr ar y rhestr tai cyffredin. **Daethom â 69 o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd, sy'n golygu bod 140 o bobl wedi eu cartrefu.** Fe wnaethom hyn drwy gymorth grantiau i ddarparu tai am rent neu bris fforddiadwy, cymorth benthyciadau, a mesurau gorfodaeth ac anogaeth. Ymhellach, **mae 268 o bobl wedi eu cartrefu mewn 143 o unedau tai fforddiadwy sydd wedi eu sefydlu. Mae 188 (allan o 268) o bobl wedi eu cartrefu mewn unedau llai yn unol â'u dymuniad**. Rydym bob amser yn ceisio sicrhau bod pobl y sir sydd wedi cael eu cartrefu mewn tai addas yn gweld effaith positif ar eu bywydau o ran agweddau cymdeithasol, ac mae hynny yn wir am 67% o'r achosion yma. Rydym yn awyddus iawn i hybu cyfleoedd i bobl y sir elwa o dai fforddiadwy a byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu achos busnes ar gyfer model cyllido addas a fydd yn ein helpu i gynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn y sir.

Roeddem hefyd angen lleihau faint o wastraff sy'n mynd i'w dirlenwi, a lleihau allyriadau carbon. Ers talwm roeddem yn cael gwared â gwastraff drwy anfon bob dim i dirlenwi, heb feddwl ddwywaith am yr effaith amgylcheddol yr oedd hynny yn ei gael. Mae'n bwysig iawn nad ydym yn gosod ein hunain nac ychwaith y cenedlaethau sydd i ddod yn agored i effaith dinistriol hynny. Er mwyn mynd i'r afael efo'r sefyllfa, rydym wedi sicrhau fod gennym drefniadau casglu a gwaredu gwastraff fydd yn lleihau faint rydym yn ei anfon i dirlenwi. Mae'n hanfodol ein bod yn cwrdd â gofynion ailgylchu a chompostio, ac felly fe wnaethom gynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a lleihau'r amlder casglu gwastraff gweddilliol yn ardal Dwyfor i bob tair wythnos. Byddwn yn ymestyn hyn i ardaloedd Meirionnydd ac Arfon yn ystod 2015-16. Mae ymroddiad trigolion a busnesau'r sir i leihau eu gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i'w dirlenwi wedi chwarae rhan allweddol i wella ein perfformiad ac erbyn hyn **mae 55.14% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ail ddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, sef cynnydd o 9% ers 2011**.



Mae busnesau'r sir wedi elwa o gynyddu eu lefelau ailgylchu a chompostio masnachol drwy wasanaeth a ddarperir gan y Cyngor, gan mai hwn ydi'r dull lleiaf costus iddynt yn ariannol. Mae ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a newid trefniadau casglu gwastraff yn ardal Dwyfor wedi arwain at arbedion ariannol o £100,000. Byddwn yn parhau i weithredu'r Strategaeth Wastraff, sef cyfres o gynlluniau i leihau ein dibyniaeth ar dirlenwi, ac i ailddefnyddio/ailgylchu/compostio mwy o'n gwastraff (58% erbyn 2015-16, ac yna 64% erbyn 2020).



Rydym hefyd wedi lleihau'r effaith niweidiol y mae allyriadau carbon adeiladau'r Cyngor yn ei gael ar ein hamgylchedd a'r hinsawdd. Drwy leihau defnydd ynni yn ein hadeiladau, uwchraddio goleuadau a rheolyddion gwres, a gosod paneli solar ar 54 o adeiladau, **mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau ei ôl troed carbon o 26% ers 2005** ac wedi llwyddo i gyflawni arbedion ariannol cronnus o dros £2.2miliwn. Mae hyn yn golygu bod pobl Gwynedd yn cael budd yn amgylcheddol ac o'r arbedion ariannol. Byddwn yn gweithredu Cynllun Carbon 2, sef dilyniant i'r cynllun presennol i sicrhau lleihad pellach yn ein hallyriadau carbon dros 5 mlynedd (2015-2020).


Roedd yn flaenoriaeth inni hefyd i wella trefniadau ar gyfer ymateb i fygythiadau newid hinsawdd. Mae dros 3,000 o aelwydydd arfordirol y sir yn wynebu risg llifogydd. Fel rhan o'n gwaith i godi eu hymwybyddiaeth o hynny a sut i ymdopi'n well, dosbarthom daflenni gwybodaeth a chynnal 'Diwrnodau Galw i Mewn' ym Mhwllheli a Phorthmadog. Er ein bod wedi llwyddo i wneud yn well na'r disgwyl ac **wedi codi ymwybyddiaeth 1,871 o aelwydydd arfordirol am y perygl o lifogydd**, mae angen parhau i weithio yn y maes hwn er mwyn gwneud yn siŵr fod y trigolion sy'n byw yn yr 1,129 aelwyd arall sydd mewn perygl yn ymwybodol o'r hyn y maent yn ei wynebu, ac yn medru ymateb yn addas i'r sefyllfa.

Er ein bod wedi cyflawni'r tasgau a osodwyd i ni ein hunain, mae yna gwestiwn o hyd a ydym wedi llwyddo i gyflawni'r amcan o sicrhau fod y trigolion hynny yn llwyr ddeall y risgiau a'r hyn y gallent hwy ei wneud i ymateb i'r risg hwnnw. Fel rhan o'n gwaith dydd i ddydd, byddwn yn rhoi sylw pellach i sicrhau bod y trigolion sydd â risg o lifogydd yn deall beth i'w wneud i liniaru effaith, a cheisio cyrraedd mwy o bobl drwy gynnal digwyddiadau pellach, a rheiny allan o oriau gwaith arferol.

## Cydweithio i greu dyfodol hyderus a Chymraeg

## Lleihau effaith amddifadedd ar bobl Gwynedd

Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr mewn termau daearyddol sy'n cynnwys 64 o gymunedau. Mae'r iaith Gymraeg yn chwarae rôl bwysig yn gymdeithasol ac fel rhan o waith busnes dydd i ddydd y sir. Yn ogystal rydym yn awyddus i weld effaith tlodi ar grwpiau a chymunedau o fewn y sir yn cael ei liniaru. Mae maes gwaith Cymunedau Cryf yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cymunedau a chefnogi pobl sydd mewn angen er mwyn lleihau effaith tlodi ar drigolion lleol. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar leihau digartrefedd, drwy sicrhau fod unedau o'r math cywir ar gael yn y lleoliadau cywir ac yn rhoi sylw i'r hyn yw gwir anghenion unigolion bregus.




Mae pump allan o wyth prosiect yn y maes yma wedi eu cyflawni'n llwyddiannus, gyda phrosiect Diwygio Lles wedi ei gyflawni'n rhannol. Darparwyd cefnogaeth integredig i bobl mewn angen er mwyn lliniaru effaith tlodi ac amddifadedd fel rhan o'r prosiect yma. Fe wnaethom ddenu cyllideb ychwanegol sy'n cyfateb i £788,910 i'r Gronfa Galedi gan y Llywodraeth yn 2014-15; defnyddiwyd yr arian yma i gefnogi teuluoedd i liniaru'r effaith a achosir gan y dreth llofftydd, **a gwariwyd arian y Gronfa Galedi ar gefnogi 1,658 o bobl.** Rydym yn parhau i weithredu'r Gronfa Galedi i gefnogi treth llofftydd, er bod y gyllideb yn llai yn 2015-16 oherwydd lleihad y cyfraniad i bob Cyngor. Mae'r gwaith cydymdrechu yn erbyn tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth inni yn 2015-16, ond mae'n bwysig nodi y bydd hyd at 4,000 o hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yng Ngwynedd yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) er mwyn prosesu eu hachosion. Gwelwyd hefyd **welliant yn nifer y dyddiau a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor o 21 diwrnod i 19 diwrnod yn 2014-15.**

Mae unigolion a theuluoedd wedi derbyn cefnogaeth i osgoi mynd yn ddigartref ac rydym wedi cynyddu unedau tai mewn ardaloedd o angen. **Llwyddom i ragori disgwyliadau yn y maes digartrefedd gyda 140 o deuluoedd yn derbyn cefnogaeth blaendal rhent,** felly o ganlyniad, dim ond un teulu oedd angen lleoliad gwely a brecwast er mwyn iddynt osgoi bod yn ddigartref. Yn dilyn gwaith o edrych beth sydd ei angen o ran unedau tai ar draws y sir, **gwnaethom sicrhau fod unedau tai yn cael eu darparu yn well mewn ardaloedd o angen ar draws y sir, gyda 63 o unedau ychwanegol wedi eu sicrhau i Wynedd** dros y ddwy flynedd ddiwethaf drwy'r prosiect Lesu Tai Preifat. Fel rhan o'r gwaith yma, cydweithiwyd gyda'r sector breifat i adnabod ardaloedd Bangor a Dolgellau fel ardaloedd o angen er mwyn

cynyddu'r nifer o unedau tai un a dwy ystafell sydd ar gael. Mae hyn wedi sicrhau fod pobl Gwynedd yn gallu parhau i fyw yn eu hardaloedd. Mae gwaith atal digartrefedd, tai fforddiadwy a thai gwag yn ôl i ddefnydd yn parhau fel rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor.

Ni lwyddwyd i gyflawni amcanion penodol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, oherwydd nad oedd gwaith yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg wedi gorffen, ac felly nid oedd cynllun gweithredu wedi ei gytuno yn ei sgil. Hefyd, nid oedd canran y disgyblion blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) wedi cynyddu. Fodd bynnag, **llwyddodd 97% (94 allan o 97) ysgol gynradd i gyrraedd gwobr Arian neu Efydd y Siarter Iaith**, a chychwynnwyd cydweithio gyda sefydliadau'r sir i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn gymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth Gwella ac Effeithlonrwydd Ysgolion (Gwe) wedi mesur effaith yr iaith Gymraeg yn gymdeithasol gyda disgyblion, sy'n dangos bod 318 (12.5%) o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd yn nefnydd y Gymraeg ar iard yr ysgol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn sefydliadau a gwella'r ganran o blant sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel strategol, mewn ysgolion, gwasanaethau cyhoeddus, yn gymdeithasol ac mewn cymunedau ble mae cyfradd y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o dan 70%. Rydym hefyd am wneud awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd er mwyn darganfod os rydym yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gwasanaethau.

## Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud


Mae'r toriadau yn yr arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn golygu fod angen inni ddygymod efo derbyn llai o arian i gynnal ein gwasanaethau. Roeddem wedi adnabod y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol cymaint â £50miliwn dros y pedair blynedd nesaf, sydd yn gosod her sylweddol. Gan fod angen i'r Cyngor arbed llawer o arian, mae angen inni gynllunio yn arloesol i osgoi toriadau i wasanaethau. Ar yr un pryd, rhaid bod yn fyw i'r ffaith nad dim ond balansio'r llyfrau yw ein swyddogaeth ac rydym yn awyddus dros ben i sicrhau fod trefniadau ar waith sy'n hwyluso ein gallu i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Yn wir mae'r gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi llywio hynny.

Mae pedwar o'r chwe phrosiect yn y maes yma wedi eu cyflawni'n llwyddiannus, sef y prosiectau sy'n gysylltiedig â'n harbedion. **Un o brif lwyddiannau'r flwyddyn yw bod mwy o arbedion effeithlonrwydd wedi eu gwireddu gan osgoi gorfod torri gwasanaethau i bobl Gwynedd. Bu inni wireddu arbedion effeithlonrwydd o £3.3miliwn eleni** drwy newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau, gan gynnal neu wella safon y gwasanaeth i bobl Gwynedd ar yr un pryd. Fe gyflawnwyd hefyd arbedion pellach o £1.5miliwn ynglŷn â, er enghraifft, targedau arbedion blynyddoedd y dyfodol a gyflawnwyd yn gynnar.

Ar ben hyn mae yna raglen arbedion wedi ei chynllunio ar gyfer 2015-18. Rydym wedi adnabod gwerth dros £13miliwn o arbedion effeithlonrwydd i'w gwireddu dros y tair blynedd nesaf, yn ogystal â datblygu cynlluniau effeithlonrwydd pellach o £6miliwn er mwyn mynd i'r afael â chau'r bwlch ariannol. Bu'r gwaith o ddarganfod arbedion effeithlonrwydd yn dasg enfawr ond mae'n uchelgais gennym i gyflawni canlyniadau i bobl Gwynedd er gwaetha'r hinsawdd ariannol anodd sy'n ein hwynebu.

Wedi dweud hynny, bydd yn anorfod y bydd yn rhaid i'r Cyngor wynebu toriadau mewn gwasanaethau maes o law, ac yn ystod y flwyddyn bu i ni lunio cyfundrefn er mwyn sicrhau ein bod yn sicrhau fod barn trigolion Gwynedd yn cael ei glywed wrth ddod i gasgliadau ynglŷn a'u blaenoriaethau nhw.

Arbedion Strategaeth Ariannol



Mae'n bwysig fod effaith yr arbedion ar bobl Gwynedd yn cael ei gadw i'r lleiafswm posib. Ffordd arall o sicrhau fod y cyni ariannol yn cael yr effaith lleiaf posibl ar bobl Gwynedd yw drwy ddenu arian sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi cytuno gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni pump o ganlyniadau allweddol yn ystod blynyddoedd ariannol 2013-14, 2014-15 a 2015-16. Eleni, **rydym wedi derbyn y swm llawn o £1.3miliwn gan ein bod wedi llwyddo i gyflawni'r canlyniadau allweddol** yn ystod 2013-14, sy'n cyfrannu at strategaeth ariannol y Cyngor, ac felly yn lleihau'r bwlch ariannol. Mae'r wasgfa ariannol wedi gosod cyfrifoldeb ychwanegol arnom i wneud yn siŵr fod gennym y gallu a'r trefniadau i ymateb i anghenion pobl Gwynedd nawr ac i'r dyfodol er gwaethaf y ffaith y bydd gennym lawer llai o adnoddau i wneud hynny.

Rydym wedi mynd ati felly i sicrhau fod pob gwasanaeth o fewn y Cyngor yn herio ei hun ac yn gofyn y cwestiwn a yw'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i'w holl waith a'i benderfyniadau. Yr amcan yw sicrhau diwylliant cyson drwy'r Cyngor. Wrth gwrs, mae newid diwylliant mewn sefydliad mor fawr yn cymryd amser ac yn gynllun hir dymor, ac oherwydd hynny mae hi rywfaint yn gynamserol i adrodd ar effaith y gwaith. Byddwn yn parhau i roi sylw pellach i hybu'r diwylliant o roi pobl Gwynedd yn ganolog i'n holl ymdrechion drwy'r Cyngor a chyflawni adolygiadau o fewn unedau gwasanaeth penodol er mwyn sicrhau bod hynny yn parhau.

Rydym hefyd wedi llunio Strategaeth Ymgysylltu, er mwyn sicrhau ein bod yn gwella'r cyswllt rhwng pobl Gwynedd a'r Cyngor. Roedd yn fwriad gennym weithredu'r strategaeth eleni, ond oherwydd y gwaith oedd ynghlwm â dygymod a'r sefyllfa ariannol, ni fu modd gwneud hynny fel y disgwyliwyd.

Mater o bryder yw bod y gyfradd o bobl Gwynedd sy'n dweud eu bod yn fodlon gyda gwasanaethau'r Cyngor yn gostwng, o 63% yn 2013-14 i 52% yn 2014-15. **28% yn unig o drigolion Gwynedd (o'i gymharu â 32% y llynedd) sy'n teimlo ei bod yn bosib iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardaloedd lleol.** Felly mae angen gwella ymgysylltu gyda phobl Gwynedd ar benderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywydau a'u hardal yn ogystal â sicrhau diwylliant cyson drwy'r Cyngor o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.

Byddwn angen parhau â'r prosiect Strategaeth Ymgysylltu er mwyn gallu cynnwys pobl Gwynedd yn ein penderfyniadau gan sicrhau eu bod yn cyfranogi tuag at ddyfodol ein gwasanaethau. Byddwn yn rhoi'r Strategaeth Ymgysylltu ar waith yn 2015-16, gan sicrhau fod y gefnogaeth briodol ar gael i'r rheolwyr i'w gweithredu.